# Panel y Cadeiryddion

## Cofnodion (POC(2)-03-06)

### Dyddiad y cyfarfod: 4 Ebrill 2006
### Amser y cyfarfod: 17:30 - 18:30
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Pwyllgor |
|---|---|
| Yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd (Cadeirydd) | |
| Rosemary Butler AC | Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |
| Peter Black AC | Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |
| Chris Gwyther AC | Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Rhodri Glyn Thomas AC | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Janet Davies AC | Archwilio |
| Gwenda Thomas AC | Cyfle Cyfartal |
| Owen John Thomas AC | Pwyllgor Rhanbarth Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |
| Karin Phillips | Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau |
| Gwen Parry | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad |
| Peter Jones | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |

| | |
|---|---|
| Adrian Green | Uwch Weithredwr Seneddol, Swyddfa'r Llywydd |
| Lara Date | Dirprwy Glerc |

## Eitemau i'w Trafod

## Eitem 1: Cydberthynas â Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Glyn Davies AC, Janice Gregory AC, Ann Jones AC a Sandy Mewies AC. Gwahoddwyd Cadeiryddion y Pwyllgorau Rhanbarth ar gyfer y drafodaeth ar ddarlledu Pwyllgorau. Anfonodd Eleanor Burnham AC a William Graham AC eu hymddiheuriadau.

1.2 Trafododd y Panel y gydberthynas rhwng CLlLC a'r Pwyllgorau gyda Chyfarwyddwr CLlLC. Y pwyntiau allweddol a godwyd yn ystod y drafodaeth oedd:

Bu gwelliannau sylweddol yn y gydberthynas rhwng CLlLC a'r Pwyllgorau a chroesawyd natur gyfeillgar ac adeiladol y trafodaethau gan swyddogion ac Aelodau. Mae swyddogion y Cynulliad a swyddogion CLlLC yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ymdrin â cheisiadau ad-hoc na ellir eu hosgoi i CLlLC gymryd rhan. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ymdriniwyd â llawer o faterion pwysig, e.e. y Mesur Gweinyddu Etholiadol, y Ddeddf Trwyddedu Cyhoeddus, Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae CLlLC yn awyddus i gynnal y gydberthynas a ddatblygwyd sy'n rhoi'r cyfle iddo lywio'r broses o lunio polisïau'r Cynulliad. Mae'r materion allweddol a ystyrir gan y Cynulliad a Llywodraeth Leol yn cynnwys cynllunio rhanbarthol, gweithredu diwydiannol a chyflog cyfartal. Mae cyflwyniad CLlLC i Adolygiad Beecham yn eithaf radical ac mae'n faes y gall y Pwyllgorau wneud rhagor o waith arno.

Mae aelodau etholedig yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau lle bynnag y mae'n bosibl, a phan mae angen i swyddogion fynychu, bydd y Cyfarwyddwr a sawl uwch swyddog CLlLC yn mynychu hefyd.

Nodwyd pa mor anodd ydyw i lefarwyr o'r gogledd gymryd rhan mewn cyfarfodydd. Erbyn hyn, gall y Cynulliad gymryd tystiolaeth drwy gyswllt fideo a chytunwyd y dylid hysbysebu a defnyddio'r cyfleuster hwn yn ehangach.

Mae CLlLC yn awyddus i gysylltu â'r Cynulliad i ystyried sut y gallai'r gydberthynas newid o ganlyniad i gynigion ym Mesur Llywodraeth Cymru a threfniadau partneriaethau yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae Pwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad yn gweithredu fel rhyngwyneb da rhwng gwleidyddion lleol ac Aelodau'r Cynulliad. Efallai y byddant yn peidio â bod yn ystod y trydydd Cynulliad, gydag Aelodau'r Cynulliad yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth gan dreulio llai o amser mewn cyfarfodydd oddi ar y safle, ond gallai pwyllgorau rhanbarth CLlLC wahodd Aelodau'r

Cynulliad i gymryd rhan mewn trafodaethau ar faterion sy'n codi ar gyfer y sector llywodraeth leol, e.e. ysgolion gwledig, cyflog cyfartal, pensiynau, dyfodol Cronfeydd Strwythurol, effaith trosglwyddo stoc tai y sector gwirfoddol ar raddfa fawr ar adfywio yng Nghymru. Bydd angen ystyried rôl Aelodau Rhanbarthol, yn arbennig yn y trydydd Cynulliad.

Mewn cysylltiad â chynllunio rhanbarthol, roedd rhywfaint o ddryswch yn y sector llywodraeth leol ynghylch nifer o ffiniau a dylid ystyried rhannu ffiniau.

Rôl bosibl ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yw llywio'r broses o ddatblygu presenoldeb rhanbarthol ar gyfer yr Asiantaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Eitemau Rheolaidd

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 7 Mawrth 2006

2.1 Cytunodd y Panel ar gofnodion y cyfarfod blaenorol ar gyfer eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i roi'r cofnodion ar y Rhyngrwyd.**

## Eitem 3: Materion yn Codi

3.1 Nododd y Panel y materion a gododd o'r cyfarfod blaenorol.

3.2 Rhoddodd Gwen Parry'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am y sefyllfa o ran darlledwyr yn penderfynu pa gyfarfodydd oddi ar y safle y dylid ei ddarlledu'n fyw. Nododd y Cadeirydd fod Barcud Derwen wedi ffilmio pwyllgor rhanbarth er nad y bwriad oedd eu darlledu'n fyw. Roedd y Panel yn derbyn mai penderfyniad golygyddol y BBC oedd p'un ai darlledu cyfarfodydd ai peidio a nodwyd bod y BBC wedi penderfynu peidio â darlledu cyfarfodydd y pwyllgorau rhanbarth. Ar sail hyn, a'r costau cysylltiedig, cytunodd y Panel na ddylid ffilmio pwyllgorau rhanbarth.

3.3 Esboniwyd bod costau ychwanegol ynghlwm wrth ddarlledu pob cyfarfod oddi ar y safle o ran contract sylfaenol darlledwr y Cynulliad gan nad oes modd mesur nifer y cyfarfodydd ymlaen llaw. Mynegwyd barn y byddai ffilmio nifer penodol o bwyllgorau pwnc oddi ar y safle a chynnwys hyn yn y contract darlledu yn fwy ffafriol. Cytunodd y Panel nad yw am weld ffactorau ariannol yn gyfrifol am beidio â darlledu unrhyw bwyllgorau pwnc neu bwyllgorau sefydlog perthnasol oddi ar y safle.

3.4 Nododd y Panel atodiad y papur ar faterion a godwyd yn y Senedd. Roedd uchder y bleindiau yn destun pryder i'r Panel am eu bod yn atal y cyhoedd rhag edrych i lawr ar wleidyddion mewn Pwyllgorau. Cydnabuwyd bod angen eu codi'n uwch weithiau i atal golau'r haul rhag dod i mewn. Cytunodd y Panel mai'r egwyddor hollbwysig yw natur agored er mwyn caniatáu i'r cyhoedd weld cyfarfodydd ond, yn y pen draw, mae'n dibynnu ar ddisgresiwn y Cadeirydd. Cytunwyd y byddai unrhyw faterion eraill a godir ynghylch gweithrediadau yn y Senedd yn cael eu cyfeirio at is-grwp perthnasol Pwyllgor y Ty.

## Eitem 4: Eitemau'r Cadeiryddion

4.1 Ni nodwyd unrhyw faterion eraill gan y Cadeiryddion.

## Eitemau i'w Cofnodi

## Eitem 5: Sylw i'r Pwyllgorau yn y Cyfryngau

5.1 Nododd y Panel y sylw a roddwyd i'r Pwyllgorau yn y cyfryngau yn ystod mis Mawrth.

## Eitem 6: Hynt Mesurau sy'n arbennig o berthnasol i Gymru a chraffu arnynt

6.1 Nododd y Panel y sefyllfa ddiweddaraf o ran hynt Mesurau drwy'r Senedd a'r broses o'u hystyried gan Bwyllgorau'r Cynulliad.

## Eitemau i'w Trafod

## Eitem 7: Cyfle Cyfartal

7.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am gynnydd o ran materion yn ymwneud â chyfle cyfartal. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth:

Roedd y pleidiau wrthi'n cael hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb. Cytunwyd ei bod yn bwysig i Aelodau yn eu rôl fel cyflogwyr, er bod rhai wedi holi ynghylch pa mor berthnasol oedd y sesiwn hyfforddi cyntaf i'r Aelodau hynny sy'n Aelodau o baneli penodiadau cyhoeddus.

Cytunodd y Panel fod yr awgrym bod pob Pwyllgor Pwnc yn penodi 'eiriolwr cydraddoldeb' yn ddefnyddiol i sicrhau y caiff materion yn ymwneud â chydraddoldeb eu hystyried drwy raglen waith gyfan y Pwyllgor hwnnw ac i osgoi peryglon o ymagwedd 'ticio blychau'.

Yn hytrach nag ystyried y rhan berthnasol o'r adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb fel eitem ar wahân, awgrymwyd y dylai'r Pwyllgorau Pwnc wahodd y Gweinidog i'w gynnwys fel eitem reolaidd yn ei adroddiad/hadroddiad i'r Pwyllgor graffu arno.

Bu'r Panel yn trafod sut y mae'n mynd i'r afael â'r mater o brif ffrydio. Bydd y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn edrych ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb o fewn y strategaeth 'Cymru: Economi yn Ffynnu' mewn cyfarfod yn y dyfodol. Ym mhortffolio'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, roedd nifer y mentrau a oedd wedi'u hanelu at grwpiau penodol yn awgrymu nad oedd prif ffrydio yn digwydd, ac roedd cynlluniau wrth law i edrych ar lwyddiant y mentrau hynny.

Mae'r agenda cydraddoldeb yn mynd i ehangu ac mae arbenigedd cynghorwyr o'r tu allan yn bwysig er mwyn paratoi ar gyfer y Comisiwn Cyfle Cyfartal newydd, a dylai fod gan Gymru llais

cryf yn y cyd-destun hwn.

Mae datblygu Rheolau Sefydlog newydd yn gyfle i sicrhau y caiff materion yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol eu hystyried fel rhan o waith y Cynulliad yn y dyfodol. Roedd y Cadeirydd yn ffafrio ystyried cydraddoldeb ochr yn ochr â materion yn ymwneud ag uniondeb, fel archwilio a safonau, y mae pob un ohonynt yn ymwneud â dimensiwn moesegol o waith y Cynulliad.

### Eitem 8: Y diweddaraf ar Gydweithio â'r Pwyllgor Materion Cymreig

8.1 Ni nodwyd unrhyw faterion mewn cysylltiad â chydweithio.

### Eitem 9: Unrhyw fater arall

9.1 Nododd y Panel y papur ar ddangosyddion perfformiad Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer mis Ionawr. Nid oedd unrhyw fater arall.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Ebrill 2006**